# Bydded Yno Ddau

Pasiwyd gan: Y Senedd

Pasiwyd ar: 30/11/2020

Yn darfod ar: **30/11/2024**

**Statws: Cyflawn**

### Swyddog sy'n gyfrifol: Llywydd yr Undeb

## Crynodeb

Dylid caniatáu i fyfyrwyr rannu rolau Swyddogion Gwirfoddol neu Swyddogion Llawn-amser.

## Manylion

Cynigir bod dau unigolyn yn gallu rhannu swyddi Gwirfoddol neu rolau Swyddog Llawn-amser o Etholiadau Swyddogion 2021 ymlaen. Yn y pen draw, byddai unrhyw bâr o swyddogion yn cael eu trin mewn egwyddor fel un rôl, gydag agweddau wedi'u rhannu yn unol â hynny trwy gytundeb lle bo hynny'n hollol angenrheidiol, e.e. Pleidleisio yn y Senedd a.y.b. Byddai'r Undeb yn rhoi mesurau a phrosesau priodol ar waith i gynnal yr egwyddor hon yn ôl yr angen.

Ar hyn o bryd, mae'n rhaid i fyfyrwyr ymgymryd â rolau fel unigolion a rheoli eu hamser yn ofalus iawn, sy'n wych mewn mudiad sy'n caniatáu gweithio hyblyg o’r fath. Credwn y gallwn fynd ymhellach a byddai'n bosibl i ddau fyfyriwr allu cydbwyso gofynion y rôl ymysg ei gilydd, lle gallai fod ganddynt ymrwymiadau eraill. Byddai hyn yn gwneud rolau’n fwy hygyrch i lu o fyfyrwyr, gan gynnwys pobl ag anableddau neu’r rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu. Byddai'n galluogi ffrindiau neu fyfyrwyr sy’n rhannu’r un safbwyntiau i sefyll, gan fynd i'r afael â rhwystrau sy'n ymwneud â hyder neu amheuon dwys ynghylch eu gallu.

Mae Undebau Myfyrwyr Warwick a Wolverhampton eisoes wedi gweithredu mesurau o'r fath naill ai'n rhannol neu'n llawn. Rwy'n credu y byddai'n bosibl iawn o fewn ein Hundeb Myfyrwyr gyda rolau’n cael yr un mynediad at adnoddau ag eraill.

Cyflwynwyd gan: Nathaniel Pidcock

## Rhestr Weithredu

| Camau a gymerwyd | Enw a Rôl | Dyddiad |
|---|---|---|
| Mae'r Llywydd wedi gweithio gyda staff yr Undeb i ddiwygio is-ddeddfau perthnasol i ganiatáu i ymgeiswyr gwirfoddol a swyddogion llawn-amser sefyll fel pâr mewn etholiadau.<br><br>Mae UMAber yn falch o gyhoeddi ein bod wedi cael dau bâr wedi eu hethol yn llwyddiannus i rolau, a’r gobaith yw mai dyma ddechrau chwalu mwy o rwystrau i fyfyrwyr sefyll mewn etholiadau yn y dyfodol. | | |